# Gwybodaeth i Gleifion

# Triniaeth wedi Llawdriniaeth

# Dermatoleg

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

**Sticer i Gleifion**

Dr / Nyrs ____________________________________________

a gynhaliodd biopsi/lawdriniaeth fach arnoch heddiw. Y driniaeth a gynhaliwyd

oedd:- ______________________________________________

______________________________________________

Er mwyn sicrhau eich bod yn gwella'n llwyr ac yn ddiogel, dilynwch y cyfarwyddiadau canlynol:-

- Bydd effaith yr anesthetig lleol yn diflannu o fewn ychydig oriau.
- Os oes gennych boen, cymerwch **PARACETAMOL** nid asprin
- Os yw'r clwyf yn dechrau gwaedu gwasgwch gadach glân yn gadarn dros y rhwymyn am 10 munud lawn. Os nad yw'r gwaedu'n stopio, cysylltwch â'r Adran Dermatoleg
- Efallai bydd y clwyf yn dyner am rai dyddiau, ac mae'n bosib y bydd 'na beth chwyddo a chleisio. Mae hyn yn arferol. Os yw'r clwyf yn mynd yn fwy poenus dros y dyddiau cyntaf, cysylltwch â'r Adran Dermatoleg.
- Gorffwys

- Os yw'r rhwymyn yn syrthio i ffwrdd yn y 48 awr cyntaf, rhowch rwymyn newydd arno neu cadwch y clwyf yn lân ac yn sych.

- Os oes gennych rwymyn gwasgu cadwch hwn yn ei le am o leiaf 24 awr.

- Ar ôl 48 awr gallwch dynnu'r rhwymau i gyd.

- Os oes crawn yn dod o'r clwyf cysylltwch â'r Ward Dermatoleg.

- Os gofynnwyd i chi beidio cymryd cyffuriau fel aspirin neu warfarin gellir ail-ddechrau eu cymryd y diwrnod ar ôl eich llawdriniaeth.

- Os ydych yn ysmygu, ceisiwch gyfyngu ar hynny am o leiaf yr wythnos gyntaf ar ôl y llawdriniaeth i helpu'r clwyf i wella.

- Os ydych wedi cael llawdriniaeth ar waelod y goes, byddem yn eich cynghori i wisgo esgidiau cyffyrddus a chodi eich coes cyn gymaint â phosib yn ystod y dyddiau cyntaf.

- Os ydych wedi cael cyngor i roi Vaseline glân ar y clwyf, defnyddiwch ffon gotwm i roi digon ohono dros y pwythau unwaith neu ddwywaith y dydd nes i'r pwythau gael eu tynnu.

- Gallwch olchi'r rhan yma o'r corff, yn y gawod neu'r bath ar ôl 48 awr.

- Trefnwch i nyrs y feddygfa neu'r nyrs gymunedol dynnu'ch pwythau mewn ___ o ddyddiau.

Os oes gennych unrhyw bryderon am eich clwyf cysylltwch â'r Ward Dermatoleg ar rif ffôn:- 01633 234646

Esboniwyd y cyfarwyddiadau hyn i mi gan:- .....................................
(enw mewn llythrennau bras)

Llofnod:-............................................................

Dyddiad:-............................................................

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English".**